

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Mae'r **Asesiad Effaith Integredig** hwn yn cynnwys egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg 2011 (gofynion Safonau'r Gymraeg), ac ystyriaethau Rheoli Risg, i osod sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol ac i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

1. MANYLION Y CYNNIG: (Polisi / Newid amcan / Arbed arian)

Teitl y Cynnig	Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion
----------------	-----------------------------------

Maes Gwasanaeth	Partneriaethau a Pherfformiad	Swyddog Arweiniol Corfforaethol	Alun Williams	Cyfarwyddwr Strategol	Barry Rees
-----------------	-------------------------------	---------------------------------	---------------	-----------------------	------------

Enw'r swyddog sy'n cwblhau'r AEI	Naomi McDonagh	E-bost	Naomi.mcdonagh2@ceredigion.gov.uk	Ffôn	01545 572661
----------------------------------	----------------	--------	--	------	--------------

Rhowch ddisgrifiad cryno o bwrpas y cynnig

Mae Cynllun Llesiant Lleol 2023-2028 y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar gyfer Ceredigion yn ceisio cyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; cyfrannu at y saith Nod Llesiant Cenedlaethol a chymhwyso pum Ffordd o Weithio yr 'Egwyddor Datblygu Cynaliadwy'. Mae'r cynllun yn nodi'r amcanion canlynol, ac mae pob un ohonynt wedi'u datblygu mewn ymateb i Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion ac ymgysylltiad ac ymgynghoriad â dinasyddion, i wella cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol pobl y sir. Yr Amcanion Llesiant yn y cynllun yw:

1. Cydweithio i sicrhau economi gynaliadwy sydd o fudd i bobl leol ac sy'n adeiladu ar gryfderau Ceredigion.
2. Cydweithio i leihau anghydraddoldebau yn ein cymunedau a defnyddio atebion cymdeithasol a gwyrdd i wella iechyd corfforol a meddyliol.
3. Cydweithio i gyflawni mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol.
4. Cydweithio er mwyn i gymunedau deimlo'n ddiogel ac wedi'u cysylltu, gan hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg

Mae amcan trawsbleidiol i fynd i'r afael â chaledi a thlodi hefyd wedi cael ei ymgorffori yn y cynllun i adlewyrchu goblygiadau'r argyfwng costau byw yn awr ac yn y dyfodol. Cydnabyddir y bydd gan hyn y potensial i gael effaith ar draws y pedwar piler lles – lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, a bydd gweithio gyda'n gilydd ar draws sefydliadau'r BGC yn helpu i gynnal ffocws ar y maes gwaith hwn.

Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol? (e.e. y cyhoedd, grwpiau penodol fel grwpiau ieuencid, gofalwyr, pobl sy'n defnyddio'r ffyrdd, pobl sy'n defnyddio parciau gwledig, pobl sy'n cael budd-daliadau, aelodau staff, neu bobl sy'n meddu ar y nodweddion gwarchoddedig a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb ac y mae'n rhaid i'r awdurdod roi sylw dyledus iddyn nhw).

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Bydd y cynllun yn effeithio'n uniongyrchol ar holl boblogaeth Ceredigion drwy bob cyfnod bywyd, er y bydd rhai agweddau o'r cynllun yn effeithio ar rai grwpiau allweddol yn fwy nag eraill.

RHEOLI'R DDOGFEN: Dylid defnyddio'r AEI yn ystod camau cyntaf y broses benderfynu, ac yna dylid ei mireinio drwy gydol y broses benderfynu. Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon er mwyn i ni allu dangos sut rydyn ni wedi trin a thrafod datblygu cynaliadwy, y Gymraeg a chydaddoldeb, lle bynnag y bo modd.

Awdur	Cam yn y broses benderfynu	Rhif y fersiwn	Dyddiad trafod	Disgrifiad cryno o unrhyw newidiadau a wnaed ar ôl trafod
Naomi McDonagh	<i>Drafft terfynol Cynllun Llesiant Lleol 2023-2028</i>	1	22 Mawrth 2023 – Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu	
			4 Ebrill 2023 - Cabinet	
			20 Ebrill 2023 - Cyngor	

AMCANION STRATEGOL Y CYNGOR: Pa un o amcanion strategol y Cyngor y mae'r cynnig yn mynd i'r afael ag ef, a sut?

Hybu'r Economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth.	Mae ystod o gamau wedi'u datblygu i fynd i'r afael ag amcan 1 y cynllun Llesiant Lleol sy'n ceisio rhoi hwb i'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth drwy ddileu rhwystrau a galluogi cyfleoedd i unigolion, cymunedau a sefydliadau. Mae nodau eraill o fewn y cynllun wedi'u hintegreiddio fel y byddant hwythau yn cefnogi Amcan 1 a'r Amcan Strategol i hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth.
Creu cymunedau gofalgwr ac iach	Mae ystod o gamau wedi'u datblygu i fynd i'r afael ag amcan 2 yn y cynllun Llesiant Lleol sy'n ceisio creu cymunedau gofalgwr ac iach drwy weithio gyda nhw a cheisio deall yr angen o fewn y cymunedau hynny, gan weithio mewn ffordd sy'n pontio'r cenedlaethau ac adeiladu ar gydnerthedd. Mae nodau eraill yn y cynllun wedi'u hintegreiddio fel y byddant hwythau hefyd yn cefnogi Amcan 2.
Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu	Mae ystod o gamau gweithredu wedi'u datblygu i fynd i'r afael ag amcanion 1, 2, 3 a 4 yn y cynllun sy'n ceisio cyfrannu at ddarparu'r dechrau gorau mewn bywyd yn ogystal â galluogi dysgu, megis edrych ar sgiliau a bylchau yn ogystal â phrentisiaethau a sgiliau ar gyfer cyflogaeth.

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd	Mae ystod o gamau wedi'u datblygu i fynd i'r afael ag amcan 2 a 3 yn y cynllun sy'n ceisio cyfrannu at greu cymunedau cynaliadwy, gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd, ond mae nodau eraill yn y cynllun wedi'u hintegreiddio fel y byddant hwythau hefyd yn cefnogi ac yn cyfrannu at greu cymunedau cynaliadwy, gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd
--	---

SYLWCH: Wrth i chi lenwi'r ffurflen hon, bydd gofyn i chi ddarparu **tystiolaeth i ategu'ch safbwyntiau**. Bydd angen i chi gynnwys eich safbwynt cychwynnol, y mesurau a'r astudiaethau sydd wedi llywio'ch ffordd o feddwl, a'r farn rydych chi wedi dod iddi. O wneud hyn, bydd modd i chi nodi a fydd unrhyw newidiadau a fydd yn deillio o roi'r argymhelliad ar waith yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol. Ymhlith y ffynonellau data mae:

- *Data meintiol – data sy'n darparu gwybodaeth rifyddol e.e. ffigurau poblogaeth, nifer y defnyddwyr, nifer y bobl nad ydynt yn ddefnyddwyr*
- *Data ansoddol - data sy'n darparu dystiolaeth o argraffiadau pobl o'r gwasanaeth/polisi a'u barn amdano e.e. dadansoddiad o gwynion, canlyniadau grwpiau ffocws, arolygon*
- *Data am y boblogaeth leol, gan gynnwys ffigurau'r cyfrifiad (Proffil Iaith Ceredigion a Data Cydraddoldeb Ceredigion)*
- *Data o'r Arolwg Cenedlaethol o Aelwydydd*
- *Data am ddefnyddwyr gwasanaeth*
- *Adborth o ymgynghoriadau ac ymgyrchoedd ymgysylltu*
- *Argymhellion pwyllgor craffu*
- *Cymariaethau â pholisiau tebyg awdurdodau eraill*
- *Cyhoeddiadau academaidd, adroddiadau ymchwil, adroddiadau ymgynghorwyr ac adroddiadau am unrhyw ymgynghoriad ag e.e. undebau llafur neu'r sectorau gwirfoddol a chymunedol, gan gynnwys y ddogfen 'A Yw Cymru'n Decach?'*
- *Data Sgiliau Iaith Gymraeg staff y Cyngor*

2. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY: Ym mha ffordd mae'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy, fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, wedi'u hymgorffori a'u blaenoriaethu yn natblygiad eich cynnig?

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	Ydy'r cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Os yw'n gwneud hynny, disgrifiwch sut. Os nad yw'n gwneud hynny, eglurwch pam.	Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	Pa gamau allwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?
Hirdymor Sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr ac anghenion tymor hir a'r angen i gynllunio ar gyfer y dyfodol	<ul style="list-style-type: none"> • Ydi. Mae cynllunio hirdymor wedi ei wreiddio trwy ddatblygiad y cynllun. Datblygwyd y nodau a'r camau gweithredu yn y cynllun i ymateb yn uniongyrchol i'r materion hirdymor a nodwyd yn Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion. 	Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion	Wrth gyflwyno'r cynllun bydd y BGC yn parhau i ddysgu drwy herio'n gadarnhaol ac anelu at wella dealltwriaeth. Bydd pwyslais pellach yn cael ei roi ar edrych ar dueddiadau hirdymor er mwyn llywio'r gwaith cynllunio a chyflawni.

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



<p>Cydweithio Cydweithio â phartneriaid eraill i gyflawni canlyniadau</p>	<p>Ydi. Mae holl bartneriaid y BGC wedi cydweithio ar bob cam o ddatblygiad y cynllun. Bydd y cynllun yn cael ei gyflawni ar y cyd gan bartneriaid y BGC.</p>	<p>Bu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn cydweithio ar ddatblygiad Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2023-28.</p>	<p>Bydd y gwaith o gyflawni'r cynllun yn cael ei wneud ar y cyd gan bartneriaid y BGC er mwyn darparu gwasanaethau integredig er budd gorau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau.</p>
<p>Cynnwys Cynnwys pobl sydd â diddordeb a gofyn am eu barn</p>	<p>Ydi. Mae rhanddeiliaid allweddol wedi bod yn rhan o bob cam o ddatblygiad y cynllun. Mae'r BGC wedi hyrwyddo cyfranogiad, ymgysylltu a chyd-gynhyrchu. Cynhaliwyd ymarferion ymgysylltu a gweithdai dros y flwyddyn a hanner diwethaf er mwyn sicrhau bod dinasyddion wedi bod yn rhan o'r gwaith o nodi'r nodau a'r camau gweithredu yn y cynllun. Mae'r rhain wedi cynnwys sesiynau gyda grwpiau o bobl â nodweddion gwarchoddedig (fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).</p>	<p>Adroddiad Adborth yr ymgynghoriad ar y Cynllun Llesiant Lleol</p>	<p>Mae'r BGC wedi ymrwymo'n llwyr i gynnwys ei randdeiliaid ac yn deall bod sgwrs barhaus yn hanfodol wrth bennu blaenoriaethau a darparu gwasanaethau. Wrth symud ymlaen, bydd y BGC yn parhau gyda'r gwaith hwn drwy sicrhau y bydd cyfleoedd i ddinasyddion fynegi eu barn, yn enwedig i'r rheini a allai fel arall ei chael hi'n anodd gwneud hynny.</p>
<p>Atal Darparu adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu</p>	<p>Ydi. Rhoddodd Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion gyfle i'r BGC nodi achosion sylfaenol y materion y mae angen mynd i'r afael â nhw. Mae'r nodau a'r camau gweithredu'n canolbwyntio ar bobl yn gweithredu drostynt eu hunain, ac yn rhoi ffocws cryf ar atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Mae'r camau'n ymdrechu i ostwng lefel yr ymyrraeth ym mywydau pobl dros amser lle bynnag y bo modd, gyda'r hyblygrwydd i addasu i amgylchiadau sy'n newid.</p>	<p>Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion</p>	<p>Wrth gyflawni'r cynllun bydd y BGC yn parhau i ganolbwyntio ar yr agenda ataliol gan ymdrechu i sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at y gwasanaeth sydd ei angen arnynt, pan fydd ei angen arnynt, a dim ond cyhyd ag y maen nhw ei angen.</p>
<p>Integreiddio Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a</p>	<p>Ydi. Mae'r BGC wedi ystyried sut mae'r nodau a'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun yn effeithio</p>	<p>Mae'r cynllun ei hun yn darparu tystiolaeth ar integreiddio. Mae</p>	<p>Wrth gyflawni'r cynllun bydd y BGC yn monitro'n agos sut mae'r camau a</p>

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



<p>diwylliant, a cheisio sicrhau bod pob un ohonynt ar ei ennill</p>	<p>ar gyrrff cyhoeddus yn y sir. Mae'r nodau a'r camau gweithredu wedi'u datblygu gyda dealltwriaeth o gydgyfrifoldeb am ganlyniadau ar draws gwasanaethau a sefydliadau. Gall sefydliadau'r sector cyhoeddus gydweithio ar draws y sir i ychwanegu gwerth at yr hyn sydd eisoes yn cael ei wneud. Mae'r cynllun yn mynegi sut mae pob nod a cham gweithredu yn cyd-fynd ag amcanion llesiant sefydliadau'r BGC.</p>	<p>integreiddio'r Nodau Llesiant Cenedlaethol, ac amcanion llesiant sefydliadau statudol y BGC wedi'u dangos yn y cynllun. Mae'r cynllun yn ymateb sy'n integreiddio llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.</p>	<p>gymerwyd yn hyrwyddo'r integreiddiad mwyaf posib ar draws wasanaethau.</p>
--	--	--	---

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



3. NODAU LLESIANT: Ydy'r cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? Eglurwch yr effaith (gadarnhaol a negyddol) yr ydych yn ei disgwyl, ac awgrymwch sut i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i gyfrannu'n well at y nod. Mae angen i ni sicrhau nad yw'r camau rydyn ni'n eu cymryd i gyflawni un o'r nodau'n niweidio'r camau i gyflawni nod arall.			
Nod Llesiant	Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.	Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	Pa gamau allwch chi ei eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?
3.1. Cymru lewyrchus Defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon, datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig, creu cyfoeth, darparu swyddi	Er bod llawer o elfennau'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â'r nod llesiant hwn, y prif amcan canlynol sydd fwyaf perthnasol yn yr achos hwn: Amcan 1: Cydweithio i sicrhau economi gynaliadwy sydd o fudd i bobl leol ac sy'n adeiladu ar gryfderau Ceredigion.		
3.2. Cymru gydnerth Cynnal a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n ategu cydnerthedd ac sy'n gallu addasu i newid (e.e. newid hinsawdd)	Er bod llawer o elfennau'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â'r nod llesiant hwn, y prif amcan canlynol sydd fwyaf perthnasol yn yr achos hwn: Amcan 3: Cydweithio i gyflawni mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol.		
3.3. Cymru iachach Mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall yr hyn sy'n effeithio ar iechyd	Er bod llawer o elfennau'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â'r nod llesiant hwn, y prif amcan canlynol sydd fwyaf perthnasol yn yr achos hwn: Amcan 2: Cydweithio i leihau anghydraddoldebau yn ein cymunedau a defnyddio atebion cymdeithasol a		



	gwyrd i wella iechyd corfforol a meddyliol.		
<p>3.4. Cymru o gymunedau cydlynus Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da</p>	<p>Er bod llawer o elfennau'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â'r nod llesiant hwn, y prif amcan canlynol sydd fwyaf perthnasol yn yr achos hwn: Amcan 4: Cydweithio er mwyn i gymunedau deimlo'n ddiogel ac wedi'u cysylltu, gan hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg</p>		
<p>3.5. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang Rhoi sylw i'r effaith ar lesiant byd-eang wrth ystyried lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol</p>	<p>Er bod llawer o elfennau'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â'r nod llesiant hwn, y prif amcanion canlynol sydd fwyaf perthnasol yn yr achos hwn: Amcan 3 a 4</p> <p>Cydweithio i gyflawni mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol.</p> <p>Cydweithio er mwyn i gymunedau deimlo'n ddiogel ac wedi'u cysylltu, gan hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg</p>		



<p>3.6. Cymru sy'n fwy cyfartal Mae pobl yn gallu cyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu'u hamgylchiadau</p> <p><i>Yn yr adran hon mae angen i chi ystyried yr effaith ar grwpiau cydraddoldeb, y dystiolaeth ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd ar gyfer gwella.</i> <i>Ydych chi wedi ystyried sut allai'r cynnig effeithio ar grwpiau cydraddoldeb fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010?</i> <i>Mae'r rhain yn cynnwys y nodweddion gwarchoddedig canlynol: oedran, anabled, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth.</i></p> <p>Ystyriwch y canllaw a ganlyn hefyd: Comisiwn Cydraddoldeb - Asesu Effaith a Dyletswydd Cydraddoldeb</p>	<p>Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl.</p> <p><i>Gan ddefnyddio eich tystiolaeth, ystyriwch yr effaith ar bob un o'r grwpiau gwarchoddedig. Bydd angen i chi ystyried a yw'r grwpiau hyn yn cael mynediad cyfartal at y gwasanaeth, neu a oes angen iddyn nhw gael y gwasanaeth mewn ffordd wahanol i bobl eraill oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig? Nid yw'n dderbyniol dweud yn syml y bydd y cynnig yn fanteisiol/anfanteisiol i bawb. Dylech ddangos eich bod wedi ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael a rhoi sylw i unrhyw fylchau neu anghyfartaledd a ddaeth i'r amlwg.</i></p>	<p>Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?</p> <p><i>Mae'n hollbwysig casglu data a thystiolaeth cydraddoldeb ar gyfer AEI. Dylech ystyried pwy sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu bwy sy'n debygol o'i ddefnyddio. Os na fyddwch yn defnyddio <u>data</u> nac yn <u>ymgysylltu</u> os ydych yn bwriadu cyflwyno newid, gallai penderfyniadau wynebu her gyfreithiol. Dylech gyplysu hyn â'r blwch cynnwys yn y templed hwn. Dylech hefyd ystyried y canllawiau cyffredinol.</i></p>	<p>Pa gamau allwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?</p> <p><i>Gall y camau hyn gynnwys amryw o gamau cadarnhaol a fydd yn sicrhau bod modd i'r sefydliad drin unigolion yn unol â'u hanghenion, hyd yn oed os bydd hynny'n golygu ei fod yn trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill er mwyn iddyn nhw gael canlyniad da. Gallech hefyd gymryd camau i bennu unrhyw fylchau yn y data neu gamau i ymgysylltu â'r rheini y bydd y cynnig yn effeithio arnynt neu y mae'n debygol o effeithio arnynt. Mae angen cyplysu'r camau hyn ag adran 4 yn y templed hwn.</i></p>																								
<p>Oedran Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoedran? (Ticiwch ✓)</p> <table border="1" data-bbox="76 1098 824 1465"> <thead> <tr> <th>Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</th> <th>Cadarnhaol</th> <th>Negyddol</th> <th>Dim/Fawr ddim</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td></td> <td>✓</td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <th>Pobl 18-50</th> <th>Cadarnhaol</th> <th>Negyddol</th> <th>Dim/Fawr ddim</th> </tr> <tr> <td></td> <td>✓</td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <th>Pobl hŷn 50+</th> <th>Cadarnhaol</th> <th>Negyddol</th> <th>Dim/Fawr ddim</th> </tr> <tr> <td></td> <td>✓</td> <td></td> <td></td> </tr> </tbody> </table>	Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim		✓			Pobl 18-50	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim		✓			Pobl hŷn 50+	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim		✓			<p>Mae'r cynllun yn diffinio canlyniadau llesiant i bawb yng Ngheredigion. Datblygwyd y cynllun gyda mewnbwn gan bobl o bob grŵp oedran, a bydd y blaenoriaethau a nodwyd yn anelu at wella ansawdd bywyd ar gyfer pob grŵp oedran.</p>	<p>Defnyddiwyd data o'r Cyfrifiad, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a llawer o ffynonellau eraill yn yr Asesiad o Lesiant Lleol, a gwnaed gwaith ymgysylltu helaeth. Fe wnaeth y wybodaeth yn yr Asesiad a'r gwaith ymgysylltu â phob oedran lywio'r amcanion a'r camau i'w cyflawni.</p> <p>Rhoddodd yr Ymgynghoriad 12 wythnos ar y Cynllun</p>	<p>Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i geisio cynnwys grwpiau bregus sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.</p>
Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim																								
	✓																										
Pobl 18-50	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim																								
	✓																										
Pobl hŷn 50+	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim																								
	✓																										

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



					wybodaeth allweddol ychwanegol a ddefnyddiwyd gennym i sicrhau bod y nodau a'r camau gweithredu yn cael effaith gadarnhaol ar bob oedran.	
--	--	--	--	--	---	--

Anabledd Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hanabledd? (Ticiwch ✓)				Mae'r cynllun yn diffinio canlyniadau llesiant i bawb yng Ngheredigion ac felly bydd yn effeithio'n gadarnhaol ar y rhai sydd ag anableddau. Mae sawl agwedd ar y cynllun a fydd yn annog cyfranogiad mewn cymunedau a gwell ymwybyddiaeth o faterion hygrychedd.	Defnyddiwyd data o'r Cyfrifiad, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a llawer o ffynonellau eraill yn yr Asesiad o Lesiant Lleol, a gwnaed gwaith ymgysylltu helaeth. Fe wnaeth y wybodaeth yn yr Asesiad a'r gwaith ymgysylltu â phob oedran lywio'r amcanion a'r camau i'w cyflawni. Rhoddodd yr Ymgynghoriad 12 wythnos ar y Cynllun wybodaeth allweddol ychwanegol a ddefnyddiwyd gennym i sicrhau bod y nodau a'r camau gweithredu yn cael effaith gadarnhaol ar bob oedran.	
Nam ar y clyw	Cadarnhaol ✓	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
Nam corfforol	Cadarnhaol ✓	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
Nam ar y golwg	Cadarnhaol ✓	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
Anabledd dysgu	Cadarnhaol ✓	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
Salwch hirdymor	Cadarnhaol ✓	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
Iechyd meddwl	Cadarnhaol ✓	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
Arall	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			

Trawsrywiol		Defnyddiwyd data o'r	Bydd gwaith pellach yn cael
--------------------	--	----------------------	-----------------------------

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl drawsrywiol? (Ticiwch ✓)				Mae'r cynllun yn diffinio canlyniadau llesiant i bawb yng Ngheredigion. Datblygwyd y cynllun gyda mewnbwn gan ystod o grwpiau diddordeb arbennig. Bydd y blaenoriaethau a nodwyd yn anelu at wella ansawdd bywyd pawb yng Ngheredigion. Mae cyfleoedd trwy'r cynllun ar gyfer cyd-gynhyrchu.	Cyfrifiad, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a llawer o ffynonellau eraill yn yr Asesiad o Lesiant Lleol, a gwnaed gwaith ymgysylltu helaeth. Fe wnaeth y wybodaeth yn yr Asesiad a'r gwaith ymgysylltu â phob oedran lywio'r amcanion a'r camau i'w cyflawni. Rhoddodd yr Ymgynghoriad 12 wythnos ar y Cynllun wybodaeth allweddol ychwanegol a ddefnyddiwyd gennym i sicrhau bod y nodau a'r camau gweithredu yn cael effaith gadarnhaol ar bob oedran.	ei wneud i geisio cynnwys grwpiau bregus sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.
Trawsrywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim ✓			

Priodas neu bartneriaeth sifil Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar briodas neu bartneriaeth sifil? (Ticiwch ✓)				Mae'r cynllun yn diffinio canlyniadau llesiant i bawb yng Ngheredigion. Datblygwyd y cynllun gyda mewnbwn gan ystod o grwpiau diddordeb arbennig. Bydd y blaenoriaethau a nodwyd yn anelu at wella ansawdd bywyd pawb yng Ngheredigion. Mae cyfleoedd trwy'r cynllun ar gyfer cyd-gynhyrchu	Defnyddiwyd data o'r Cyfrifiad, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a llawer o ffynonellau eraill yn yr Asesiad o Lesiant Lleol, a gwnaed gwaith ymgysylltu helaeth. Fe wnaeth y wybodaeth yn yr Asesiad a'r gwaith ymgysylltu â phob oedran lywio'r amcanion a'r camau i'w cyflawni. Rhoddodd yr Ymgynghoriad 12 wythnos ar y Cynllun	
Priodas	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim ✓			
Partneriaeth sifil	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim ✓			

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



					wybodaeth allweddol ychwanegol a ddefnyddiwyd gennym i sicrhau bod y nodau a'r camau gweithredu yn cael effaith gadarnhaol ar bob oedran.	
--	--	--	--	--	---	--

Beichiogrwydd neu famolaeth Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar feichiogrwydd neu famolaeth? (Ticiwch ✓)				Mae'r cynllun yn diffinio canlyniadau llesiant i bawb yng Ngheredigion. Datblygwyd y cynllun gyda mewnbwn gan ystod o grwpiau diddordeb arbennig. Bydd y blaenoriaethau a nodwyd yn anelu at wella ansawdd bywyd pawb yng Ngheredigion.	Defnyddiwyd data o'r Cyfrifiad, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a llawer o ffynonellau eraill yn yr Asesiad o Lesiant Lleol, a gwnaed gwaith ymgysylltu helaeth. Fe wnaeth y wybodaeth yn yr Asesiad a'r gwaith ymgysylltu â phob oedran lywio'r amcanion a'r camau i'w cyflawni. Rhoddodd yr Ymgynghoriad 12 wythnos ar y Cynllun wybodaeth allweddol ychwanegol a ddefnyddiwyd gennym i sicrhau bod y nodau a'r camau gweithredu yn cael effaith gadarnhaol ar bob oedran.	
Beichiogrwydd	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Mamolaeth	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					

Hil Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hil? (Ticiwch ✓)				Mae'r cynllun yn diffinio canlyniadau llesiant i bawb yng Ngheredigion. Datblygwyd y cynllun gyda mewnbwn gan ystod o grwpiau diddordeb arbennig.	Defnyddiwyd data o'r Cyfrifiad, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a llawer o ffynonellau eraill yn yr Asesiad o Lesiant Lleol, a gwnaed gwaith ymgysylltu	
Gwyn	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Grwpiau ethnig cymysg / aml-ethnig	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim	Bydd y blaenoriaethau a nodwyd yn anelu at wella ansawdd bywyd pawb yng Ngheredigion. Mae cyfleoedd yn y cynllun ar gyfer cyd-gynhyrchu ac mae'r cynllun yn nodi'r angen i chwilio am ystod eang o leisiau i sicrhau cynhwysiant ac amrywiaeth ar draws cymunedau. Mae cyfle cyfartal yn un o brif egwyddorion y cynllun a chyfeirir yn benodol at weithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol - Cymru Wrth-hiliol	helaeth. Fe wnaeth y wybodaeth yn yr Asesiad a'r gwaith ymgysylltu â phob oedran lywio'r amcanion a'r camau i'w cyflawni. Rhoddodd yr Ymgynghoriad 12 wythnos ar y Cynllun wybodaeth allweddol ychwanegol a ddefnyddiwyd gennym i sicrhau bod y nodau a'r camau gweithredu yn cael effaith gadarnhaol ar bob oedran.
	✓				
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim		
	✓				
Du / Affricanaidd / Caribiaidd / Du Prydeinig	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim		
	✓				
Grwpiau ethnig eraill	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim		
	✓				

Crefydd neu ddim cred Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol grefyddau, credoau neu ddim cred? (Ticiwch ✓)				Mae'r cynllun yn diffinio canlyniadau llesiant i bawb yng Ngheredigion. Datblygwyd y cynllun gyda mewnbwn gan ystod o grwpiau diddordeb arbennig. Bydd y blaenoriaethau a nodwyd yn anelu at wella ansawdd bywyd pawb yng Ngheredigion.	Defnyddiwyd data o'r Cyfrifiad, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a llawer o ffynonellau eraill yn yr Asesiad o Lesiant Lleol, a gwnaed gwaith ymgysylltu helaeth. Fe wnaeth y wybodaeth yn yr Asesiad a'r gwaith ymgysylltu â phob oedran lywio'r amcanion a'r camau i'w cyflawni. Rhoddodd yr Ymgynghoriad 12 wythnos ar y Cynllun
Cristnogion	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim		
	✓				
Bwdhyddion	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim		
	✓				
Hindŵiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim		
	✓				

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Dyneiddwyr	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim	wybodaeth allweddol ychwanegol a ddefnyddiwyd gennym i sicrhau bod y nodau a'r camau gweithredu yn cael effaith gadarnhaol ar bob oedran.
	✓			
Iddewon	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim	
	✓			
Mwslimiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim	
	✓			
Sikhiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim	
	✓			
Pobl heb gred	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim	
	✓			
Eraill	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim	
	✓			

Rhyw Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ddynion a/neu fenywod? (Ticiwch ✓)				Mae'r cynllun yn diffinio canlyniadau llesiant i bawb yng Ngheredigion. Datblygwyd y cynllun gyda mewnbwn gan ystod o grwpiau diddordeb arbennig. Bydd y blaenoriaethau a nodwyd yn anelu at wella ansawdd bywyd pawb yng Ngheredigion gan gynnwys datblygu gwell cyfathrebu gyda grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid, gan sicrhau y	Defnyddiwyd data o'r Cyfrifiad, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a llawer o ffynonellau eraill yn yr Asesiad o Lesiant Lleol, a gwnaed gwaith ymgysylltu helaeth. Fe wnaeth y wybodaeth yn yr Asesiad a'r gwaith ymgysylltu â phob oedran lywio'r amcanion a'r camau i'w cyflawni. Rhoddodd yr Ymgynghoriad 12 wythnos ar y Cynllun wybodaeth allweddol
Dynion	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim		
			✓		
Menywod	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim		
			✓		

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



				bydd gan bob grŵp cynrychioladol lais wrth lywio dyfodol Ceredigion.	ychwanegol a ddefnyddiwyd gennym i sicrhau bod y nodau a'r camau gweithredu yn cael effaith gadarnhaol ar bob oedran.
--	--	--	--	--	---

Cyfeiriadedd rhywiol Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol gyfeiriadedd rhywiol? (Ticiwch ✓)				Mae'r cynllun yn diffinio canlyniadau llesiant i bawb yng Ngheredigion. Datblygwyd y cynllun gyda mewnbwn gan ystod o grwpiau diddordeb arbennig. Bydd y blaenoriaethau a nodwyd yn anelu at wella ansawdd bywyd pawb yng Ngheredigion gan gynnwys datblygu gwell cyfathrebu gyda grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid, gan sicrhau y bydd gan bob grŵp cynrychioladol lais wrth lywio dyfodol Ceredigion.	Defnyddiwyd data o'r Cyfrifiad, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a llawer o ffynonellau eraill yn yr Asesiad o Lesiant Lleol, a gwnaed gwaith ymgysylltu helaeth. Fe wnaeth y wybodaeth yn yr Asesiad a'r gwaith ymgysylltu â phob oedran lywio'r amcanion a'r camau i'w cyflawni. Rhoddodd yr Ymgynghoriad 12 wythnos ar y Cynllun wybodaeth allweddol ychwanegol a ddefnyddiwyd gennym i sicrhau bod y nodau a'r camau gweithredu yn cael effaith gadarnhaol ar bob oedran.
Pobl ddeurywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim		
			✓		
Dynion hoyw	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim		
			✓		
Menywod hoyw / lesbiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim		
			✓		
Pobl heterorywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim		
			✓		

Rhoi sylw dyledus i dri nod y Ddyletswydd Cydraddoldeb – penderfynu a fydd y cynnig yn eich cynorthwyo i roi terfyn ar wahaniaethu, i hybu cydraddoldeb ac i feithrin cysylltiadau da, neu'n eich rhwystro rhag gwneud hynny.

3.6.2. Sut allai/mae'r cynnig yn helpu i hybu/hyrwyddo cyfle cyfartal?

Dylech ystyried a fydd y cynnig yn eich helpu chi i wneud y pethau a ganlyn:

- dileu neu leihau anfantais
- diwallu anghenion pobl â nodweddion penodol
- annog pobl â nodweddion penodol i gymryd mwy o ran

Nod y cynllun yw hyrwyddo cyfle cyfartal drwy sicrhau gwell mynediad at wybodaeth a gwasanaethau cyhoeddus; a meithrin diwylliant o gynwysoldeb yng Ngheredigion. Bydd y cynllun hefyd yn cynyddu cyfranogiad trwy gyd-gynhyrchu mentrau a gwasanaethau.



3.6.3. Sut allai/mae'r cynnig/penderfyniad yn helpu i roi terfyn ar wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon?

Dylech ystyried a oes tystiolaeth ar gael sy'n dangos: ● y gall y cynnig beri i bobl â nodweddion penodol gael eu trin yn llai ffafriol ● y gallai'r cynnig arwain at wahaniaethu anuniongyrchol ● bod y cynnig yn fwy tebygol o'ch cynorthwyo i wneud addasiadau rhesymol neu'ch rhwystro rhag gwneud hynny

Mae'r cynllun yn cynnwys mwy o gyfranogiad, a fydd yn ceisio sicrhau nad yw grwpiau bregus yn cael eu tangynrychioli.

3.6.4. Sut allai/mae'r cynnig yn effeithio ar hybu/hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach?

Dylech ystyried a fydd y cynnig yn eich helpu chi i wneud y pethau a ganlyn: ● Mynd i'r afael â rhagfarn ● Hybu dealltwriaeth

Bydd y cynllun yn cyfrannu tuag at hybu dealltwriaeth o gysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach, drwy ddod â grwpiau cymunedol ynghyd wrth gyd-gynhyrchu mentrau a gwasanaethau gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar le, gan gymhwyso'r gwersi cadarnhaol a ddysgwyd drwy weithio yn y ffordd honno.

Rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010.

Byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas yw ystyr anfantais economaidd-gymdeithasol.

Fel corff cyhoeddus rhestredig, mae'n ofynnol i Geredigion roi sylw dyledus i Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010. I bob pwrpas, mae hyn yn golygu cynnal asesiad o'r effaith ar dlodi. Mae'r ddyletswydd yn cynnwys pawb sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig.

3.6.5 Pa dystiolaeth sydd gennych am anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldeb o ran disgwyliadau parthed y cynnig hwn?

Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu bron dim effaith o gwbl.

Defnyddiwyd data o'r Cyfrifiad, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a llawer o ffynonellau eraill yn yr Asesiad o Lesiant Lleol, a gwnaed gwaith ymgysylltu helaeth. Fe wnaeth y wybodaeth yn yr Asesiad a'r gwaith ymgysylltu â phob oedran lywio'r amcanion a'r camau i'w cyflawni.

Mae elfen bwrpasol a thrawsbynciol o'r cynllun sy'n ceisio sicrhau bod mynd i'r afael â chaledi a thlodi yn cael ei ystyried ar bob cam, p'un a yw ymyriadau a ffrydiau gwaith o fewn y pileri llesiant economaidd, llesiant cymdeithasol, llesiant amgylcheddol a/neu lesiant diwylliannol, ac ystyrir a gweithredir ar y rhain.

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r farn hon?

Defnyddiwyd data o'r Cyfrifiad, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a llawer o ffynonellau eraill yn yr Asesiad o Lesiant Lleol, a gwnaed gwaith ymgysylltu helaeth. Fe wnaeth y wybodaeth yn yr Asesiad a'r gwaith ymgysylltu â phob oedran lywio'r amcanion a'r camau i'w cyflawni.

Pa gam neu gamau y gallwch eu cymryd i leihau effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?

Gweithio ar draws pob un o'r 4 piler llesiant ac edrych ar fynd i'r afael â chaledi a thlodi fel blaenoriaeth yn sgil y pwysau costau byw sy'n effeithio ar drigolion Ceredigion.



3.7. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Mae diwylliant a threftadaeth Cymru a'r Gymraeg yn cael eu hybu a'u gwarchod. <i>Yn yr adran hon, mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd i wella. Dylech wneud hyn i sicrhau nad yw'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl sy'n dewis byw eu bywydau a defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn waeth na'r cyfleoedd sydd ar gael i'r rheini sy'n dewis gwneud hynny drwy gyfrwng y Saesneg, a hynny yn unol â Mesur y Gymraeg 2011.</i>				Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl.	Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	Pa gamau allwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?
A fydd y cynnig yn cael ei roi ar waith yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg)?	Cadarn haol	Negyddol	Dim/Fawr ddim	Mae'r cynllun ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd disgwyl i bob Grŵp Prosiect a sefydlwyd i gyflawni'r cynllun adrodd ar y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Sut mae'r camau wedi'u cyflawni'n ddwyieithog • Sut mae'r camau wedi cynnig cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg • Sut mae'r camau wedi hyrwyddo argaeledd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg? 		
	✓					
A fydd y cynnig yn effeithio ar y cyfleoedd i	Cadarn haol	Negyddol	Dim/Fawr ddim	Mae'r Gymraeg yn werth	Data cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau	

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



bobl ddefnyddio'r Gymraeg?	✓			craidd sy'n sail i bob agwedd ar y cynllun.	Gwladol	
A fydd y cynnig yn cynyddu neu'n lleihau'r cyfleoedd i bobl gael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg?	Cadarn haol ✓	Negydd ol	Dim/Fawr ddim	Bydd y cynllun yn cynyddu'r cyfle i bobl dderbyn neu gael mynediad at wybodaeth yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn ôl eu dewis iaith. Yn ogystal, bydd yr holl gamau yn cael eu cyflawni yn ddwyieithog.		
Sut fydd y cynnig yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?	Cadarn haol ✓	Negydd ol	Dim/Fawr ddim	Bydd gofyn i wasanaethau ofyn am ddewis iaith Cymraeg neu Saesneg, a darparu gwasanaethau yn unol â'u dewis. Felly bydd angen i wasanaethau sicrhau bod ganddynt ddigon o staff sy'n siarad Cymraeg i ddarparu eu gwasanaethau yn yr iaith ddewis. Mae'r Gymraeg yn werth craidd drwy'r cynllun, ac felly bydd yn rhan annatod o'r mentrau a'r		

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



				camau gweithredu sy'n dod o'r cynllun.		
A fydd yn gwarchod, yn hybu ac yn cyfoethogi diwylliant a threftadaeth lleol?	Cadarn haol ✓	Negydd ol	Dim/Fawr ddim	<p>Bydd yr Amcan canlynol yn y cynllun yn hyrwyddo ymhellach y nod llesiant o Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu:</p> <p>Amcan 4:</p> <p>Cydweithio i alluogi cymunedau i deimlo'n ddiogel a chysylltiedig a hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.</p>		



4. ATGYFNERTHU'R CYNNIG: Os yw'r cynnig yn debygol o effeithio'n negyddol ar unrhyw rai o'r materion uchod (gan gynnwys unrhyw rai o'r nodweddion gwarchoddedig), pa gamau ymarferol/newidiadau allai helpu i liniaru neu i ddileu unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn adrannau 2 a 3?

4.1 Camau

Beth fyddwch chi'n ei wneud?	Pryd fyddwch chi'n ei wneud?	Pwy sy'n gyfrifol?	Cynnydd

4.2. Os na fyddwch yn cymryd unrhyw gamau i ddileu neu i liniaru'r effeithiau negyddol, rhwch gyfiawnhad.
(Cofiwch: os ydych chi wedi nodi gwahaniaethu anghyfreithiol uniongyrchol a phosibl o ganlyniad i'r cynnig hwn, rhaid i chi newid neu ddiwygio'r cynnig.)

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol

4.3. Monitro, gwerthuso ac adolygu

Sut fyddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig?

Trwy gynlluniau cyflawni manwl ac adroddiadau rheolaidd i BGC Ceredigion, Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion a Chabinet Cyngor Sir Ceredigion.

5. RISG: Beth yw'r risg sydd ynghlwm wrth y cynnig hwn?

Meini prawf asesu effaith	1 – Isel iawn	2 – Isel	3 – Canolig	4 - Uchel	5 – Uchel iawn
Meini prawf asesu tebygolrwydd	1 – Annhebygol o ddigwydd	2 - Llai tebygol o ddigwydd	3 - Yr un mor debygol o ddigwydd ac o beidio digwydd	4 - Mwy tebygol o ddigwydd	5 - Tebygol o ddigwydd
Disgrifiad o'r risg	Effaith (difrifoldeb)		Tebygolrwydd (y gallu i gyflawni)		Sgôr risg

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Methiant i gyflawni'r gyd-ddyletswydd o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i weithredu ar y cyd drwy gyfrwng Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal.	4	2	8
Allai eich cynnig chi effeithio ar faes gwasanaeth arall?			
Gallai. Cafodd y cynllun ei ddatblygu i'w integreiddio ac i ychwanegu gwerth at holl wasanaethau'r Cyngor a Gwasanaethau Cyhoeddus eraill ar draws Ceredigion.			

6. CYMERADWYO

Swydd	Enw	Llofnod	Dyddiad
Rheolwr y Gwasanaeth	Diana Davies		3.3.23
Swyddog Arweiniol Corfforaethol	Alun Williams		3.3.23
Cyfarwyddwr Strategol	Barry Rees		3.3.23
Deiliad y Portffolio	Y Cynghorydd Bryan Davies		3.3.23